

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 17eg o Hydref 2018 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cynghorwyr Elwyn Jones, Iwan Foulkes , Arfon Hughes, Tegwyn Jones, Idris Jones, Berwyn Hughes, Berwyn Harding, Hedd Pugh, Geraint Morgans, Catrin Jones a Huw T Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau; Cyng. John P Jones.

1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf:

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29ain o Awst fel rhai cywir.

2. Materion yn codi .

- a) **Arian a ddosrennir gan 'Ddol y Plwy'** – adroddodd y Clerc ei fod wedi cael llythyr gan Sarah Bletcher, Warden yr Eglwys drwy law Cyng. John P Roberts, a darllenwyd hwn yn llawn. Roedd nifer o faterion yn codi ohono, a thrafodwyd y pwysigrwydd mai pobl o fewn y Plwyf yn unig ddylai elwa ym marn y Cyngor. Penderfynwyd gwahodd Sarah Bletcher atom i'r Cyngor i drafod, a'n bod eisiau cynorthwyo gorau y gallem. Nodwyd y bwriad i werthu'r Rheithordy, a gofynnwyd tybed a fyddai modd cael eu cydweithrdiad i wneud llwybr ar dir y Rheithory yn gyfochrog a'r Briffordd tuag at y fynwent newydd ym Mallwyd – o gofio fod cais am lwybr wedi ei godi nifer o weithiau yn y gorffennol.
- b) **Swyddfa Bost yn Neuadd Dinas** – adroddwyd nad oedd modd talu sieciau i mewn i swyddfa Bost yn y Dinas, ac roedd angen gwybod beth oedd y rheswm am hyn.
- c) **Meddygfa Glanwymyn** – adroddodd y Clerc y gohebiaeth ddiweddaraf, a'r ymateb yn dilyn y llythyr a ddanfonwyd at Y Gweinidog Iechyd Vaughan Gething.
- d) Adroddwyd am y **cyfarfod arbennig a gafwyd ym mhentref Aberangell** ar Nos Fercher yr 20fed o Fedi, pryd y daeth nifer o gynrychiolwyr o wahanol gyrff ynghyd i gyfarfod trigolion yr ardal. Roedd nifer o'r Cynghorwyr yn bresennol yno yngyd a'r Clerc. Atgoffwyd o'r problemau enfawr sy'n codi yn yr ardal fel canlyniad i feiciau modur yn 'scramblo' yn y goedwig. Roedd cyfarfod pellach wedi ei drefnu, a byddai'r Clerc yn danfon gwybodaeth yn fuan i gadarnhau dyddiad.
- e) Darllenwyd ymatebion i'r **holl faterion priffyrdd** ers y cyfarfod diwethaf. Cyfeiriwyd at y cwynion dibendraw sy'n cael eu danfon i'r Adran Briffyrdd, ac nad oedd sylw boddhaol yn cael ei roi iddynt. Cyfeiriwyd yn benodol at achosion yn Aberangell, a rhoddwyd engraifft eto o ddwr ar y ffordd rhwng Dugoed Mawr a Nantyrhedydd ar yr A458 (Ffridd Groes) sy'n ddifrifol o beryglys i ddefnyddwyr y ffordd brysur yma. Penderfynwyd gwahodd Prif Weithredwr y Cyngor atom i'r cyfarfod nesaf er mwyn cael mynegi ein hanfodlonrwydd. Gwelwyd na ddylid rhoi engreiffitiau wrth ei wahodd atom, ond yn hytrach eu rhoi gerbron yn ystod y cyfarfod.
- f) Adroddodd y Clerc ei fod wedi ymateb i nifer o ymholiadau gan y Cyfrifwyr allanol BDO ers y cyfarfod diwethaf. Diolchodd I'r Cyng. Arfon Hughes am gynorthywo gyda materion yn ymwneud a'r wefan
- g) Roedd nodyn o ddiolch gan Marie Curie am y cyfraniad o £50.
- h) Diolchwyd I'r Clerc am yr ymateb cynhwysfawr I'r ymgynghoriad ar hedfan isel.

3. Materion Cynllunio

Roedd un cais gerbron l'w ystyried, sef;

Gosod mast telathrebu latis 25m yn cynnal 3 antena, 2 antena dysgl 0.6m yn ogystal a 3 cabinet offer a generadur o fewn compownd diogel ar dir ger Penrhiwcul, ger yr A458 Mallwyd.

Roedd y Cyngor yn gefnogol l'r cais.

Cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng Iwan Foulkes, a chwblhhaedd ddatganiad a gadael yr ystafell.

4. Materion Cyllid.

Cytunwyd I dalu anfoneb Hefin Davies am dorri gwair mynwent y Dinas eleni eto, sef y swm o £400 fel a wnaethpwyd yn 2017.

5. Gohebiaeth.

- a) Darllenwyd e-boat gan Age Cymru ynglyn a grantiau i grwpiau cymunedol. Roedd hwn eisoes wedi ei ddanfôn ar e-bost i'r Cyngorwyr.
- b) Nodwyd gynhadledd gan Cyngor pobl Hyn Gwynedd 'Taclo unigrwydd mewn cymunedau' i'w gynnal yn Y Ganolfan Porthmadog Dydd Gwener 16eg o Dachwedd. Siaradwraig wadd; Beti Goerge.
- c) Nodwyd yr ohebiaeth ddiweddaraf gan Barc Cenedlaethol Eryri ynglyn a'r Cynllun Datblygu. Cytunodd y Cadeirydd i edrych ar y dogfennau.
- d) Nodwyd lythyr gan y Post Brenhinol yn codi ymwybyddiaeth am beryglon post/ohebiaeth 'scam' o fewn ein cymuned.
- e) Nodwyd ohebiaeth am Bwyllgor Ardal Meirionnydd 'Un Llais Cymru' a gyfarfu ar Nos Fercher y 26ain o Fedi, a chafwyd adroddiad gan Cyng Idris Jones a Hedd Pugh a fu'n bresennol.
- f) Nodwyd ymgynghoriad pellach gan Gyngor Gwynedd yn gofyn pa wasanaethau sy'n bwysig i'r trigolion. Roedd gwybodaeth am hyn wedi ei roi ar hysbysfwrdd y neuadd. Roedd nifer o gyfarfodydd yn cael eu cynnal, ac roedd modd ymateb drwy yrru adborth i Eichbarn@gwynedd.llyw.cymru, llenwi'r holiadur ar-lein, neu lenwi a dychwelyd yr holiadur papur. Anogwyd bawb i ymateb. Gofynnwyd i'r Clerc ymateb gyda'r pwyntiau canlynol;
 - Siom nad oedd gwrandawriad i ymatebion blaenorol, gan gyfeirio yn arbennig at yr ymateb i'n cwynion ar faterion priffyrdd.
 - Siom na chafwyd newid meddwl gan y Cyngor ar fater cefnogaeth i fudiad y Ffermwyr leuainc.

6. Unrhyw Fater arall.

- a) Cyfeiriwyd gomin Dolybont, a phryder nad oedd yn gaeedig rhag i gerbydau uchel gael mynediad. Addawodd Cyng. Hedd Pugh edrych ar y sefyllfa, ac ail-roi polion bach yno i fod yn rhwystr.

- b) Cyfeiriwyd at y lle chwarae yn Lawnt y Plas, a bod cwningod yn gwneud difrod. Roedd dealltwriaeth fod y Cyng. John P Roberts yn delio efo hyn, a byddai'r clerch yn cysylltu ag ef.
- c) Roedd yna sistern yn gollwng yn y toiledau yn y Dinas, ac angen cyfeirio y sefyllfa i Gyngor Gwynedd.
- d) Roedd polyn BT wedi torri rhwng Dolhir a mynedfa i bentref Dinas. Hefyd roedd cwyn am arwyddion uniaith saesneg gan BT yn y Dinas – roedd lluniau wedi cael eu danfon gan y Cyng Arfon Hughes.
- e) Cyfeiriwyd unwaith eto at or-dyfiant coed yn yr ardal, gan gyfeirio yn arbennig at y peryglon i ddefnyddwyr y ffordd ger Pont ar Wrysgen.
- f) Cyfeiriwyd at agoriad swyddogol Ysgol Bro Idris yn ddiweddar, a bod yna angen llywodraethwyr o'r newydd i'r ysgol. Roedd yn bwysig annog aelodau newydd o ardal y Dinas.
- g) Roedd angen sylw ar frys i'r ffordd rhwng Deunant a Nantyrhenfaes, gan bod dirywiad mawr yn ei chyflwr yn ddiweddar.
- h) Roedd dwr ar y ffordd A470 ar dop Bwlch yr Oerddrws, oedd yn beryglus i ddefnyddwyr y ffordd ar adegau o law mawr
- i) Roedd angen gwell eglurder ar y ffordd dros Fwlch y Groes – mewn achos yn ddiweddar, roedd arwyddion swyddogol yn dweud fod y ffordd ar gau, ond pan wnaed ymholiadau dywedwyd fod y ffordd ar agor.
- j) Adroddwyd fod canghennau o'r coed ger comin Dolybont yn cwympto i'r llawr ar dywydd gwyntog, ac yn beryglus i ddefnyddwyr y ffordd. Atgoffwyd pawb mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw'r rhain - gan eu bod wedi eu plannu gan y Cyngor Dosbarth yn flaenorol.
- k) Rhoddwyd adroddiad byr gan y Cadeirydd Elwyn Jones am gynllun datblygu llwybrau i ardal y Dinas oedd yn cael ei wneud gan Gwmni Nod Glas. Nid oedd trafodaeth hyd yma gyda thirfeddiannwyr lleol, ac roedd bwriad gwneud hyn yn fuan. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw waith ychwnegol i'r Cyngor Cymuned yng nghyswllt y prosiect yma.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 5ed o Ragfyr 2018 yn NEUADD
ABERANGEL AM 7.30 O'R GLOCH**